RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
01/2025
DYDDIAD CYHOEDDI:
14/01/2025

# Adroddiad mapio cysyniad grŵp

## Cysyniadu'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol

Adroddiad Tystiolaeth Ategol 3 ar gyfer y Gwerthusiad Cenedlaethol o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron
ISBN Digidol 978-1-83625-997-8

Awduron: Sarah Wallace a Carolyn Wallace

Wallace, S. a Wallace, C. (2024) Adroddiad Mapio Cysyniad Grŵp: Cysyniadu. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 01/2025. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-or-gronfa-integreiddio-rhanbarthol-ar-gyfer-iechyd-gofal-cymdeithasol

Dyma'r Adroddiad Mapio Cysyniad Grŵp sy'n un o bedair dogfen sy'n darparu tystiolaeth ategol ar gyfer Adroddiad Cysyniadu'r Gwerthusiad Cenedlaethol o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Mae'r Adroddiad Cysyniadu yn cyfosod canfyddiadau'r adroddiad hwn, a thri arall sy'n darparu tystiolaeth ategol – y Fframwaith ar gyfer Newid (Verity a Llewellyn, 2023): yr Adolygiad Cyflym Realistig o'r llenyddiaeth (Tetlow et al., 2024); ac adroddiad y Cyfweliadau Cwmpasu manwl (Bryer a Bebb, 2024).

## Gwerthusiad Cenedlaethol o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol

Tîm yr astudiaeth:

Mark Llewellyn, Fiona Verity, Heledd Bebb, Nia Bryer, Deborah Fitzsimmons, Tony Garthwaite, Mary Lynch, Llinos Haf Spencer, Sion Tetlow, Carolyn Wallace, a Sarah Wallace.

Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru, Prifysgol De Cymru; Prifysgol Brunel Llundain; Prifysgol Abertawe, Ymchwil OB3, a Choleg Brenhinol y Llawfeddygon yn Iwerddon.

Prif arweinydd yr astudiaeth:

**Yr Athro Mark Llewellyn**[1]

Cyfarwyddwr Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru, ac Athro Polisi Iechyd a Gofal

Prifysgol De Cymru

mark.llewellyn@decymru.ac.uk

Safbwyntiau'r ymchwilwyr ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag:

Is-adran Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ:
ymchwil.iechydagwasanaethaucymdeithasol@llyw.cymru

[1] Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru, Prifysgol De Cymru: Mark Llewellyn – Prifysgol De Cymru

## Tabl Cynnwys

1. Cyflwyniad .......... 7

2. Dull ac Ymagwedd .......... 8

   Mapio Cysyniad Grŵp .......... 8

3. Canfyddiadau .......... 11

   Gweithgaredd 1: Taflu syniadau .......... 12

   Gweithgaredd 2: Didoli .......... 13

   Gweithgaredd 3: Sgôr ar gyfer ‘Deall’ a ‘Arwyddocâd’ .......... 17

4. Crynodeb .......... 31

Cyfeirnodau .......... 34

Atodiad A .......... 35

### Rhestr o Dablau

Tabl 1: Nifer y cyfranogwyr a gwblhaodd bob gweithgaredd .......... 11

Tabl 2: Prif ardal ddaearyddol y gwaith .......... 11

Tabl 3: Math o sefydliad .......... 12

Tabl 4: Rôl broffesiynol .......... 12

Tabl 5: Y pum datganiad cyntaf .......... 13

Tabl 6: Datganiadau enghreifftiol ym mhob un o'r saith clwstwr .......... 15

Tabl 7: Datganiadau angor ar gyfer pob clwstwr, nifer y datganiadau fesul clwstwr a chlystyrau gwerth pontio a datganiadau angor (mae gwerthoedd pontio is yn ffitio’n agosach yn y clwstwr) .......... 17

Tabl 8: Nodweddion clystyrau .......... 18

Tabl 9: Y deg datganiad gorau a’u sgôr gyfartalog – Dealltwriaeth .......... 19

Tabl 10: Y deg datganiad uchaf a’u sgôr gyfartalog – Arwyddocâd .......... 20

Tabl 11: Enghraifft a chyfanswm nifer y datganiadau o bob cwadrant .......... 24

Tabl 12: Y deg datganiad mwyaf arwyddocaol a dealledig o'r egwyddorion a'r cysyniadau sylfaenol sy'n gysylltiedig â'r RIF fesul clwstwr .......... 25

Tabl 13: Y deg datganiad mwyaf arwyddocaol ond lleiaf dealledig o'r egwyddorion a'r cysyniadau sylfaenol sy'n gysylltiedig â'r RIF fesul clwstwr .......... 26

Tabl 14: Y deg datganiad mwyaf dealledig a lleiaf arwyddocaol o'r egwyddorion a'r cysyniadau sylfaenol sy'n gysylltiedig â'r RIF fesul clwstwr .......... 27

**Rhestr o Ffigurau**

**Ffigur 1: Y broses ymchwil a addaswyd o Kane a Trochim (2007).** ................................ 8
Ffigur 2: Map pwyntiau wedi'i greu gan gyfrifiadur o 98 o ddatganiadau ............................ 13
Ffigur 3: Map clystyrau gyda labeli o ymarfer didoli'r cyfranogwyr ...................................... 14
Ffigur 4: Map sgorio clystyrau – Dealltwriaeth ..................................................................... 18
Ffigur 5: Map sgorio clystyrau – Arwyddocâd ....................................................................... 20
Ffigur 6: Adroddiad paru patrymau cymharol yn cymharu sgoriau clystyrau ar gyfer dealltwriaeth ac arwyddocâd ........................................................................................ 22
Ffigur 7: Adroddiad Go-Zone yn dangos sut mae pob datganiad yn cael ei sgorio mewn perthynas â dealltwriaeth ac arwyddocâd .............................................................. 23
Ffigur 8: Adroddiad paru patrymau cymharol yn cymharu cyfranogwyr o sectorau polisi a phob sector arall ar gyfer y raddfa sgorio dealltwriaeth ........................................... 28
Ffigur 9: Adroddiad paru patrymau cymharol yn cymharu cyfranogwyr o sectorau polisi a phob sector arall ar gyfer y raddfa sgorio arwyddocâd ............................................ 29

## Crynodeb Gweithredol

Mae’r adroddiad hwn, sydd wedi’i gynnal fel rhan o Gam Cysyniadu blwyddyn un y gwerthusiad Cenedlaethol o’r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF), yn un o bedwar sy’n darparu tystiolaeth ategol ar gyfer yr Adroddiad Cysyniadu (Llewellyn a Verity, 2024). Mae'r Adroddiad Cysyniadu yn dwyn ynghyd ac yn cyfosod canfyddiadau o'r adroddiad hwn a thri arall: y Fframwaith ar gyfer Newid (Verity a Llewellyn, 2023); yr Adolygiad Cyflym Realistig o'r llenyddiaeth (Tetlow et al., 2024); ac adroddiad y Cyfweliadau Cwmpasu manwl (Bryer a Bebb, 2024).

Gan ddefnyddio dull consensws ar-lein o’r enw Mapio Cysyniad Grŵp, archwiliodd yr astudiaeth hon safbwyntiau cyfranogwyr ar y syniadau a’r cysyniadau y tu ôl i’r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF). Defnyddiwyd dull Mapio Cysyniad Grŵp ar-lein drwy feddalwedd GroupWisdom™ er mwyn casglu data, integreiddio data a dadansoddi. Dull consensws yw Mapio Cysyniad Grŵp sy’n cynnwys rhanddeiliaid yn y broses ymchwil drwy dri gweithgaredd: taflu syniadau, didoli a sgorio. Mae ei ffordd o integreiddio prosesau ansoddol â dadansoddiad ystadegol amlamryweb yn galluogi grwpiau amrywiol o unigolion i fynegi eu syniadau a'u cynrychioli'n weledol drwy gyfres o fapiau cysyniad cysylltiedig. Drwy ddefnydd ar-lein o ddull Mapio Cysyniad Grŵp roedd sampl cenedlaethol daearyddol wasgaredig o gyfranogwyr yn gallu cymryd rhan yn yr astudiaeth ar amser ac mewn lle oedd yn gyfleus iddyn nhw.

Ar ôl cwblhau tri chwestiwn demograffig (prif ardal waith ddaearyddol, math o sefydliad, a rôl broffesiynol), dechreuodd y cyfranogwyr y sesiwn taflu syniadau; gan greu datganiadau ar gyfer yr ysgogiad ffocws ‘Pan fydda i’n meddwl am yr egwyddorion a’r cysyniadau sylfaenol rwy’n eu cysylltu â’r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, rwy’n meddwl am…’. Wedyn, didolodd y cyfranogwyr yr holl ddatganiadau yn bentyrrau â thema. Roedd y gweithgaredd olaf (sgorio) yn gofyn i gyfranogwyr sgorio pob datganiad gan ddefnyddio dwy raddfa Likert pum pwynt: Dealltwriaeth ac Arwyddocâd.

Ein nod oedd recriwtio hyd at 100 o gyfranogwyr (y nifer uchaf ar gyfer meddalwedd GroupWisdom™) o blith gweithwyr proffesiynol oedd yn datblygu / yn rheoli / yn gweithredu / yn cyflawni prosiectau neu raglenni wedi’u hariannu gan y RIF yn eu rhanbarth. Dosbarthwyd gwahoddiadau e-bost drwy borthorion (arweinwyr y RIF a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn bennaf) i sefydliadau a gweithwyr proffesiynol perthnasol. Ar ôl

cael cydsyniad, byddai'r cyfranogwyr yn cofrestru eu hunain ar feddalwedd GroupWisdom™ drwy ddolen ar-lein.

Roedd y feddalwedd ar-lein yn cynnal pedwar cam o ddadansoddi data; a) Ystadegau disgrifiadol i ddadansoddi ymatebion demograffig cyfranogwyr, b) Matrics tebygrwydd yn cael ei greu o'r datganiadau wedi'u didoli gan y cyfranogwyr oedd yn dangos nifer y cyfranogwyr a ddidolodd y datganiadau gyda'i gilydd, c) Dadansoddiad graddio amlddimensiwn o'r matrics tebygrwydd yn creu map pwyntiau o'r datganiadau. Rhoddir pwynt i bob un o ddatganiadau'r cyfranogwyr ar echel dau ddimensiwn (XY), d) Defnyddiwyd algorithm Ward mewn dadansoddiad clwstwr hierarchaidd o glystyrau'r datganiadau i greu map clystyrau gyda labeli clwstwr, sgôr clwstwr, Paru Patrymau ac adroddiad Go-zone.

**Canfyddiadau**

Roedd y cyfranogwyr yn cynrychioli pob rhanbarth ledled Cymru, ac ystod o sefydliadau. Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn gweithio o fewn Partneriaethau Rhanbarthol ac roedd ganddynt rolau arwain/uwch reoli.

Didolodd a sgoriodd y cyfranogwyr 98 o ddatganiadau. Roedd dadansoddiad o'r data a ddidolwyd yn creu map saith clwstwr o gysyniadau a syniadau sy'n gysylltiedig â'r RIF: Cyfathrebu, perthnasoedd a rhwydweithio; Integreiddio a chydweithio; Effaith, canlyniadau a gwerthuso; Uchelgais i newid; Ariannu a rheoli galw; Cymhlethdod a chyfyngiadau; a Llywodraethu.

Mae'r map clystyrau (Ffigur 3) yn dangos y berthynas gysyniadol rhwng clystyrau; mae'r rhai sy'n nes at ei gilydd yn cynrychioli perthynas gref a'r clystyrau sydd ymhellach oddi wrth ei gilydd yn cynrychioli perthynas wan. O'r map clystyrau, mae egwyddorion/cysyniadau lefel uwch uchelgeisiol y RIF e.e., clystyrau 'Cyfathrebu, perthnasoedd a rhwydweithio', 'Effaith, canlyniadau a gwerthuso', ac 'Uchelgais i newid' yn agosach at ei gilydd ac yn dangos eu bod yn cael eu hadnabod gan gyfranogwyr. Fodd bynnag, caiff y rhain eu gwrthbwyso gan ymarferoldeb datblygu/rheoli/cyflawni'r RIF – e.e., clystyrau 'Cymhlethdod a chyfyngiadau', 'Ariannu a rheoli galw', a 'Llywodraethu', sydd hefyd yn agosach at ei gilydd.

Wrth ystyried yr egwyddorion a'r cysyniadau sylfaenol sy'n gysylltiedig â'r RIF, mae'r mapiau sgorio clystyrau (Ffigur 4 a 5) a'r adroddiad paru patrymau (Ffigur 6), yn dangos, er bod gan rai clystyrau sgoriau cyfartalog tebyg ar gyfer 'dealltwriaeth' ac 'arwyddocâd', bod

anghysondebau hefyd rhwng y ddwy sgôr. Er enghraifft, y clwstwr ‘Ariannu a rheoli galw’ a gafodd ei sgorio fel y mwyaf arwyddocaol, ond yn llai dealledig, tra bod y clwstwr ‘Integreiddio a chydweithio’ wedi’i sgorio’n fwyaf dealledig ond yn llai arwyddocaol. Y clystyrau lleiaf dealledig ac arwyddocaol oedd ‘Uchelgais i newid’ a ‘Llywodraethu’.

Cymharodd adroddiad Go-Zone (Ffigur 7) bob un o’r 98 datganiad ar draws y ddwy raddfa sgorio gan nodi’r deg datganiad mwyaf dealledig a mwyaf arwyddocaol (parth gwyrdd, Tabl 12), y datganiadau lleiaf dealledig ond mwyaf arwyddocaol (parth oren, Tabl 13), a'r datganiadau lleiaf dealledig a lleiaf arwyddocaol (parth glas, Tabl 14).

Mae saith o’r deg datganiad uchaf yn y parth gwyrdd yn perthyn i’r clystyrau sy’n gysylltiedig ag ymarferoldeb datblygu/rheoli/cyflawni’r RIF, ‘Ariannu a rheoli galw’ a ‘Chymhlethdod a chyfyngiadau’ ac yn cynnwys pwysau ariannol, cynnal gwasanaethau, a cymhlethdodau a phwysau'r system.

Yn yr un modd, mae chwech o’r deg datganiad uchaf yn y parth oren yn perthyn i’r clystyrau sy’n gysylltiedig ag ymarferoldeb datblygu/rheoli/cyflawni’r RIF ac yn cynnwys gwrthdaro a dyblygu â mentrau eraill Llywodraeth Cymru, heriau prif ffrydio cyllid, a biwrocratiaeth.

Yn y parth glas, roedd lledaeniad mwy cyfartal o gynrychiolaeth clystyrau rhwng cysyniadau/egwyddorion lefel uwch y RIF ac ymarferoldeb datblygu / rheoli / cyflawni’r RIF. Ymhlith y datganiadau lleiaf dealledig a lleiaf arwyddocaol roedd y cysyniadau/syniadau sy’n ganolog i’r RIF e.e., gwerthoedd modelau gofal, erydu ffiniau sefydliadol, a chysondeb cenedlaethol.

Gellir cymryd pedair neges allweddol o'r astudiaeth Mapio Cysyniad Grŵp hon:

- Cafwyd cyfranogiad gan drawstoriad da iawn o randdeiliaid. Roedd y cyfranogwyr yn cynrychioli holl ranbarthau Cymru a safbwyntiau cenedlaethol, ac ystod o wahanol sefydliadau;
- Mae’r map clystyrau yn dangos dau grŵp gwahanol o gysyniadau sy’n dod i’r amlwg – y cysyniadau ‘strategol’ a sgoriwyd yn gymharol gadarnhaol sy’n sail i’r RIF (‘Uchelgais i newid’, ‘Cyfathrebu, perthnasoedd a rhwydweithio’, ac ‘Integreiddio a chydweithio’) wedi’u gwrthbwyso gan y cysyniadau 'gweithredol' sy'n sail i'r RIF ('Cymhlethdod a chyfyngiadau', 'Ariannu a rheoli galw', a 'Llywodraethu') a sgoriwyd yn gymharol negyddol;

- Mae'r graddfeydd sgorio a ddangosir yn y gwaith paru patrymau yn dangos, er bod gan rai clystyrau sgoriau cyfartalog tebyg ar y ddwy raddfa (dealltwriaeth ac arwyddocâd), bod anghysondebau hefyd rhwng y ddwy sgôr ar gyfer rhai cysyniadau. Mae hyn yn fwyaf amlwg ar gyfer ‘Ariannu a rheoli galw’ sy’n cael ei sgorio fel y clwstwr mwyaf arwyddocaol o ran cyflawni nodau’r RIF ond fel un llai dealledig. Yn yr un modd, ‘Integreiddio a chydweithio’ yw’r cysyniad mwyaf dealledig, ond fe’i hystyrir yn llai arwyddocaol o ran cyflawni’r canlyniadau o dan y RIF;
- Yn y dadansoddiad go-zone, ceir cyfres o ddatganiadau sydd wedi’u sgorio yn y cwadrant gwyrdd (h.y. sgôr uwch na’r cyfartaledd gan gyfranogwyr ar gyfer arwyddocâd a dealltwriaeth o fewn y RIF) gan gynnwys rhai ar bwysau ariannol, y RIF yn cael ei defnyddio i gynnal gwasanaethau, a phwysau ar y system. Mae datganiadau yn y parth llwyd (h.y. rhai y mae cyfranogwyr wedi’u sgorio fel y rhai lleiaf arwyddocaol o ran cyflawni nodau’r RIF a’r rhai lleiaf dealledig) yn cynnwys cysyniadau a syniadau sy’n greiddiol i’r RIF ei hun fel y modelau gofal, erydiad ffiniau sefydliadol, ac ymreolaeth mewn systemau gofal integredig.

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae’r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau o astudiaeth Mapio Cysyniadau Grŵp, a gynhaliwyd fel rhan o Gam Cysyniadu blwyddyn un y gwerthusiad Cenedlaethol o’r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF).

1.2 Mae hwn yn un o bedwar adroddiad sy’n darparu tystiolaeth ategol ar gyfer Adroddiad Cysyniadu’r astudiaeth (Llewellyn a Verity, 2024). Mae'r Adroddiad Cysyniadu yn dwyn ynghyd ac yn cyfosod canfyddiadau o'r adroddiad hwn a thri arall: y Fframwaith ar gyfer Newid (Verity a Llewellyn, 2023); yr Adolygiad Cyflym Realistig o'r llenyddiaeth (Tetlow et al., 2024); ac adroddiad y Cyfweliadau Cwmpasu manwl (Bryer a Bebb, 2024).

1.3 Mae’r Adroddiad Cysyniadu (Llewellyn a Verity, 2024) yn mynd i’r afael â’r cyntaf o’r cwestiynau canolog yn ein hastudiaeth (‘I ba raddau y mae egwyddorion ystyrlon a gwerthusadwy wedi’u mynegi fel rhan o’r RIF?’), ac wrth ateb y cwestiwn mae’n rhoi synthesis o’r canfyddiadau o ddata gwerthuso a gasglwyd yn ystod Blwyddyn 1 gwerthusiad y RIF. Mae’r Adroddiad Cysyniadu felly’n ‘drosolwg’ o’r dystiolaeth a gasglwyd yma ac mewn mannau eraill ac mae’n rhoi disgrifiad o’r cyd-destun newidiol a chyfnewidiol sydd wedi effeithio ar y RIF.

## 2. Dull ac Ymagwedd

### Mapio Cysyniad Grŵp

2.1 Defnyddiodd yr astudiaeth hon ddull consensws ar-lein, sef Mapio Cysyniad Grŵp (Kane a Trochim, 2007) i archwilio'r syniadau a'r cysyniadau y tu ôl i'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF) gyda chyfranogwyr yr astudiaeth. Gweler Yu et al (2023) ac Elliott et al (2022) am enghreifftiau o waith Mapio Cysyniad Grŵp a ddefnyddiwyd mewn mannau eraill.

2.2 Mae Mapio Cysyniad Grŵp yn ddull soffistigedig, cadarn, cyfranogol o gynnwys rhanddeiliaid yn y broses ymchwil. Mae'n integreiddio prosesau ansoddol â dadansoddiad ystadegol amlamryweb er mwyn galluogi grŵp amrywiol o bobl i fynegi eu syniadau a'u cynrychioli'n weledol drwy gyfres o fapiau cysyniad cysylltiedig.

2.3 Mae gan ddull Mapio Cysyniad Grŵp dair rhan ddilyniannol, y gofynnwyd i gyfranogwyr eu cwblhau'n unigol ar-lein: taflu syniadau, grwpio/didoli, a sgorio (Ffigur 1).

**Ffigur 1: Y broses ymchwil a addaswyd o Kane a Trochim (2007).**




2.4 Mae dull Mapio Cysyniad Grŵp yn cael ei arwain gan hwylusydd ac yn defnyddio meddalwedd GroupWisdom™ er mwyn casglu data, integreiddio data a dadansoddi. Galluogodd meddalwedd GroupWisdom™ ymchwilwyr i gyrraedd sampl cenedlaethol daearyddol wasgaredig o gyfranogwyr. Roedd y cyfranogwyr yn gallu cymryd rhan yn yr astudiaeth ar amser ac mewn lle oedd yn gyfleus iddyn nhw.

2.5 Mae taflu syniadau yn gofyn i gyfranogwyr greu datganiadau mewn ymateb i ysgogiad ffocws. Yn yr astudiaeth hon, yr ysgogiad ffocws oedd ‘Pan fydda i’n meddwl am yr egwyddorion a’r cysyniadau sylfaenol rwy’n eu cysylltu â’r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, rwy’n meddwl am…’. Unwaith y bydd y datganiadau wedi’u creu, mae’r cyfranogwyr yn grwpio ac yn didoli’r holl ddatganiadau sy’n cael eu creu yn ‘bentyrrau’ â thema sy’n gwneud synnwyr iddyn nhw gan labelu pob pentwr. Yn olaf, gofynnir i gyfranogwyr sgorio pob datganiad ar raddfa Likert pum pwynt. Yn yr astudiaeth hon, y graddfeydd sgorio oedd:

- Dealltwriaeth – Pa mor ddealledig yw’r egwyddor / cysyniad gyda'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol?
  1. Ddim yn ddealledig o gwbl, 2. Ddim yn ddealledig iawn, 3. Dealledig, 4. Dealledig iawn, 5. Dealledig tu hwnt.
- Arwyddocâd[2] – Pa mor arwyddocaol yw'r egwyddor / cysyniad ar hyn o bryd o ran cyflawni nodau'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol?
  1. Ddim yn arwyddocaol o gwbl, 2. Cyfyng ei arwyddocâd, 3. Gweddol arwyddocaol, 4. Arwyddocaol, 5. Arwyddocaol iawn.

2.6 Yn ogystal â’r tri gweithgaredd, gofynnwyd tri chwestiwn demograffig i gyfranogwyr oedd wedi cofrestru ar y feddalwedd:

1. Ym mha ardal ddaearyddol ydych chi'n gweithio'n bennaf?
2. Pa rai o'r mathau isod o sefydliadau ydych chi'n gweithio iddynt yn bennaf?
3. Pa un o'r canlynol sydd agosaf at ddisgrifio'ch rôl?

2.7 Cynhaliwyd yr astudiaeth yn ddwyieithog yn Gymraeg ac yn Saesneg rhwng 21 Tachwedd 2023 ac 8 Ionawr 2024. Ceisiwyd a sicrhawyd cymeradwyaeth foesegol gan Brifysgol De Cymru [230213LR].

**Recriwtio/casglu data**

2.8 Ein nod oedd recriwtio hyd at 100 o gyfranogwyr[3]. Dosbarthwyd gwahoddiadau e-bost ynghyd â thaflen wybodaeth ategol, a dolen at ffurflen gydsyniad ar-lein, drwy borthorion (arweinwyr y RIF a’r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn bennaf) i sefydliadau a gweithwyr proffesiynol perthnasol oedd yn datblygu / yn rheoli / yn gweithredu / yn cyflawni prosiectau neu raglenni wedi’u hariannu gan y RIF yn eu

[2] Fe ddefnyddion ni’r diffiniad canlynol o arwyddocâd: *‘pwysigrwydd rhywbeth, yn enwedig pan fydd hyn yn cael effaith neu newid amlwg’*.
[3] Uchafswm capasiti recriwtio trwydded meddalwedd GroupWisdom™.

rhanbarth. Yn dilyn cytundeb cydsyniad, rhoddwyd dolen i'r cyfranogwyr i gofrestru eu hunain ar feddalwedd GroupWisdom™.

2.9 Yn ystod yr astudiaeth, gallai'r cyfranogwyr gymryd rhan ym mhob un o'r tri gweithgaredd (taflu syniadau, didoli a sgorio), neu dim ond un neu ddau o'r gweithgareddau. Er enghraifft, gallai cyfranogwr ymuno â'r astudiaeth yn y cam didoli (ar ôl i'r sesiwn taflu syniadau ddod i ben) a chymryd rhan yn y gweithgareddau didoli a/neu sgorio. Nid yw Mapio Cysyniad Grŵp yn rhagnodol o ran ei gwneud yn ofynnol i bob cyfranogwr sydd wedi ymrestru ar y feddalwedd gwblhau'r tri gweithgaredd er mwyn i'w cyfraniad gael ei gynnwys yn y dadansoddiad.

**Dadansoddiad o'r data**

2.10 Defnyddiwyd y feddalwedd ar-lein i gynnal pedwar cam dadansoddi data (Kane a Trochim, 2007) yn dilyn prosesau adolygu, glanhau a derbyn data:

- Cam 1: Dadansoddwyd tri ymateb demograffig y cyfranogwyr gan ddefnyddio ystadegau disgrifiadol.
- Cam 2: Mae matrics tebygrwydd yn cael ei greu o ddatganiadau didoli'r cyfranogwyr. Mae hyn yn dangos nifer y cyfranogwyr a ddidolodd y datganiadau gyda'i gilydd.
- Cam 3: Mae dadansoddiad graddio amlddimensiwn o'r matrics tebygrwydd yn creu map pwyntiau o'r datganiadau. Rhoddir pwynt i bob un o ddatganiadau'r cyfranogwyr ar echel dau ddimensiwn (XY) (Ffigur 2).
- Cam 4: Defnyddiwyd algorithm Ward mewn dadansoddiad clwstwr hierarchaidd o glystyrau'r datganiadau i greu map clystyrau gyda labeli clwstwr (Ffigur 3), sgôr clwstwr (Ffigurau 4 a 5), ac adroddiad Paru Patrymau (Ffigur 6), a dadansoddiad Go-zone (Ffigur 7). Drwy ddadansoddiad Go-zone llwyddwyd i nodi'r datganiadau mwyaf dealledig ac arwyddocaol fel y'u sgoriwyd gan gyfranogwyr (Tabl 12), datganiadau a sgoriwyd fel y rhai lleiaf dealledig ond y rhai mwyaf arwyddocaol (Tabl 13), a datganiadau a sgoriwyd fel y rhai lleiaf dealledig a'r rhai lleiaf arwyddocaol (Tabl 14). Nododd adroddiadau paru patrymau debygrwydd a gwahaniaethau, yn seiliedig ar y math o sefydliad (o faes polisi neu ddim o faes polisi) yr oedd y cyfranogwyr yn gweithio ynddo'n bennaf (Ffigur 9).

# 3. Canfyddiadau

3.1 At ei gilydd, cydsyniodd 37 o gyfranogwyr gan ymrestru ar yr astudiaeth Mapio Cysyniad Grŵp gan ddefnyddio meddalwedd GroupWisdom™. Mae Tabl 1 yn dangos nifer y cyfranogwyr a gwblhaodd bob gweithgaredd. Atebodd 33 o gyfranogwyr gwestiynau'r cyfranogwr (cwestiynau demograffig), cofrestrodd 24 ar weithgaredd taflu syniadau, a gwblhawyd gan 21 ohonynt. Cofrestrodd dau gyfranogwr arall ar gyfer y gweithgareddau didoli a sgorio ar ôl i'r cam taflu syniadau ddod i ben. At ei gilydd, cwblhaodd 24 y gweithgaredd didoli, 27 y gweithgaredd sgorio cyntaf 'Deall', a 25 yr ail weithgaredd sgorio 'Arwyddocâd'.

**Tabl 1: Nifer y cyfranogwyr a gwblhaodd bob gweithgaredd**

| Gweithgaredd | Cwblhawyd |
|---|---|
| Cwestiynau'r cyfranogwyr | 33 |
| Taflu syniadau | 21 |
| Didoli | 24 |
| Sgorio 1 – Deall | 27 |
| Sgorio 2 – Arwyddocâd | 25 |

3.2 Roedd y cyfranogwyr yn cynrychioli pob rhanbarth ledled Cymru (Tabl 2), ac amrywiaeth o sefydliadau (Tabl 3). Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn gweithio o fewn Partneriaethau Rhanbarthol (33.33%) ac roedd ganddynt rolau arwain/uwch reoli (Tabl 4, 90.63%). Roedd y pum ymateb 'arall' i'r math o sefydliadau roedd y cyfranogwyr yn gweithio'n bennaf ynddynt yn cynnwys AaGIC, cynrychiolydd defnyddwyr gwasanaeth, a 'Sefydliad cydweithredol'. Y ddau ymateb 'arall' i rôl y cyfranogwyr oedd Prif Weithredwr, ac ymarferydd cydgynhyrchu gwirfoddol.

**Tabl 2: Prif ardal ddaearyddol y gwaith**

| Opsiwn | Nifer | % |
|---|---|---|
| Y gogledd | 7 | 22.1 |
| Powys | 1 | 30.3 |
| Y gorllewin | 4 | 12.1 |
| Gorllewin Morgannwg | 2 | 6.1 |
| Cwm Taf Morgannwg | 1 | 3.0 |
| Caerdydd a'r Fro | 8 | 24.2 |
| Gwent | 1 | 3.03 |
| Cenedlaethol | 9 | 27.3 |
| **Cyfanswm** | **33** | **100** |

**Tabl 3: Math o sefydliad**

| Opsiwn | Nifer | % |
|---|---|---|
| Awdurdod lleol | 6 | 18.2 |
| Trydydd sector | 4 | 12.1 |
| GIG | 4 | 12.1 |
| Llywodraeth Cymru | 3 | 9.1 |
| Partneriaeth Ranbarthol | 11 | 33.3 |
| Arall | 5 | 15.2 |
| **Cyfanswm** | **33** | **100** |

**Tabl 4: Rôl broffesiynol**

| Opsiwn | Nifer | % |
|---|---|---|
| Uwch arweinydd/rheolwr, Rheolwr gweithredol/Rheolwr canol | 29 | 90.6 |
| Goruchwyliwr/Ymarferydd | 1 | 3.1 |
| Arall | 2 | 6.3 |
| **Cyfanswm** | **32** | **100** |

**Gweithgaredd 1: Taflu syniadau**

3.3 Yn ystod y gweithgaredd taflu syniadau, creodd 21 o gyfranogwyr gronfa gychwynnol o 60 o ddatganiadau mewn ymateb i'r ysgogiad ffocws, 'Pan fydda i'n meddwl am yr egwyddorion a'r cysyniadau sylfaenol rwy'n eu cysylltu â'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, rwy'n meddwl am…'.

3.4 Glanhawyd y datganiadau gan ddefnyddio'r broses a amlinellwyd gan Kane a Trochim (2007) – adolygu'r rhestr grai, dileu dyblygiadau neu ddatganiadau diangen/amherthnasol, a hollti datganiadau cyfansawdd. Ychydig iawn o olygu a fu i'r datganiadau, dim ond er mwyn sicrhau cywirdeb gramadegol ac i sicrhau eglurder, yn enwedig mewn perthynas ag acronymau a jargon. Mapiwyd datganiadau yn erbyn yr Adolygiad Cyflym Realistig (Tetlow et al., 2024) i sicrhau cysondeb â'r sylfaen dystiolaeth ac i sicrhau bod agweddau allweddol ar y llenyddiaeth wedi'u cynnwys. Arweiniodd y gwaith mapio at ychwanegu 16 o ddatganiadau.

3.5 Llwythwyd y rhestr derfynol o 98 o ddatganiadau i'r feddalwedd ar gyfer camau 2 a 3. Darperir y rhestr lawn o ddatganiadau yn Atodiad 1 ac mae enghreifftiau o

ddatganiadau (y pum datganiad cyntaf fel y'u cyflwynwyd ar Feddalwedd GroupWisdom™, heb ddim trefn benodol) i'w gweld yn Nhabl 5.

**Tabl 5: Y pum datganiad cyntaf**

| Rhif y datganiad | Datganiad |
|---|---|
| 1 | Pwysigrwydd amlygu agweddau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ym maes gofal integredig |
| 2 | Pwysigrwydd rhyngweithiadau wyneb yn wyneb gyda chleifion ac yn broffesiynol |
| 3 | Pwysigrwydd cydleoli ar gyfer gofal integredig |
| 4 | Erydu ffiniau sefydliadol |
| 5 | Sut i fesur a gwerthuso effeithiolrwydd gofal integredig |

**Gweithgaredd 2: Didoli**

3.6 Yn y gweithgaredd hwn, didolodd a grwpiodd 24 o gyfranogwyr bob datganiad yn bentyrrau unigol a rhoi label unigol i bob pentwr. Gallai cyfranogwyr ddewis creu cymaint o bentyrrau ag oedd yn briodol yn eu barn nhw, er bod cyfarwyddiadau meddalwedd GroupWisdom™ yn cynghori cyfranogwyr, yn seiliedig ar nifer y datganiadau i'w didoli (n=98), mai 5-20 o bentyrrau fyddai'n arferol.

3.7 O'r gweithgaredd didoli, creodd y feddalwedd fap pwyntiau yn dangos pob un o'r 98 datganiad (Ffigur 2).

**Ffigur 2: Map pwyntiau wedi'i greu gan gyfrifiadur o 98 o ddatganiadau**



3.8 Mae pwynt yn cynrychioli pob datganiad. Mae pa mor agos yw'r pwyntiau at ei gilydd, yn dangos pa mor aml y cafodd y datganiadau eu didoli gyda'i gilydd gan

gyfranogwyr. Er enghraifft, mae datganiadau 2 ac 11 (wedi'u cylchu'n goch) yn agos at ei gilydd ac felly nhw sydd wedi'u didoli gyda'i gilydd amlaf. I'r gwrthwyneb, mae datganiadau 53 a 63 (wedi'u cylchu'n las) ar ddau ben eithaf y map felly ni chawsant eu didoli gyda'i gilydd yn aml neu ddim o gwbl. O'r map pwyntiau, gallwn weld 'clystyru' datganiadau, a lle mae 'clystyru' yn llai amlwg, er enghraifft, datganiadau yn y canol (wedi'u cylchu'n oren). Fodd bynnag, mae pob pwynt yn rhan o'r map clystyrau (Ffigur 3).

**Map clystyrau**

3.9 Cynhaliwyd dadansoddiad clystyrau hierarchaidd i ganfod y nifer optimaidd o glystyrau. Crëwyd saith map clystyrau (4-10) gan y feddalwedd i ddangos dosbarthiad y ffordd y cafodd y datganiadau wedi'u didoli eu grwpio o fewn clystyrau. Creodd y feddalwedd hefyd restr o labeli clwstwr posibl, fel y'u pennwyd gan labeli a roddwyd gan y cyfranogwyr yn y cam didoli.

**Ffigur 3: Map clystyrau gyda labeli o ymarfer didoli'r cyfranogwyr**



3.10 Adolygodd y tîm gwerthuso bob map clystyrau yn seiliedig ar sut y cafodd datganiadau eu grwpio a'u cysylltu â'i gilydd ym mhob map clystyrau a'r labeli clwstwr posibl. Yn dilyn trafodaeth a gwiriad synnwyr o'r mapiau a'r labeli, cytunwyd ar fap saith clwstwr. Y labeli ar gyfer pob un o'r saith clwstwr yw: Cyfathrebu, perthnasoedd, a rhwydweithio, Integreiddio a chydweithio, Effaith, canlyniadau, a gwerthuso, Uchelgais i newid, Ariannu a rheoli galw, Cymhlethdod a chyfyngiadau, a Llywodraethu.

3.11 Mae lleoliad pob datganiad o fewn clwstwr yn seiliedig ar sut y grwpiodd y cyfranogwyr bob datganiad. Er enghraifft, mae datganiad 36 ‘Y ffaith y dylai’r RIF fod yn fodd o gyflawni nod fel rhan o waith newid systemau llawer ehangach’, yn perthyn i’r clwstwr ‘Uchelgais i newid’ oherwydd mai dyma lle cafodd ei osod fwyaf gan y cyfranogwyr.

3.12 Dangosir y berthynas gysyniadol rhwng clystyrau gan y pellter rhyngddynt – pellter byr = perthynas gref; pellter mawr = perthynas wan. Felly, mae’r clwstwr ‘Ariannu a rheoli galw’ yn agosach at y clystyrau ‘Cymhlethdod a chyfyngiadau’ a ‘Llywodraethu’, na’r clystyrau eraill. ‘Cymhlethdod a chyfyngiadau’ oedd â’r nifer fwyaf o ddatganiadau (n=19), ac yna’r clwstwr ‘Integreiddio a chydweithio’ (n=18). Y clwstwr ‘Cyfathrebu, perthnasoedd, a rhwydweithio’, a’r clwstwr ‘Effaith, canlyniadau, a gwerthuso’ oedd â’r nifer leiaf o ddatganiadau (n=10). Mae Tabl 6 yn rhoi tri datganiad enghreifftiol i bob clwstwr.

**Tabl 6: Datganiadau enghreifftiol ym mhob un o'r saith clwstwr**

| Rhif | Geiriad |
|---|---|
| **Cyfathrebu, perthnasoedd a rhwydweithio (n=10)** | |
| 4 | Pwysigrwydd cyfathrebu ar draws rhwydweithiau proffesiynol |
| 82 | Cydweithio ar draws partneriaid i fynd i'r afael â chur pen i'r ddwy ochr |
| 92 | Cydgynhyrchu |
| **Integreiddio a chydweithio (n=18)** | |
| 35 | Un o egwyddorion y RIF oedd galluogi newid diwylliannol integredig |
| 56 | Cysondeb cenedlaethol (yr un cynnig lle bynnag rydyn ni’n byw) |
| 83 | Annog ffyrdd newydd o weithio |
| **Effaith, canlyniadau a gwerthuso (n=10)** | |
| 6 | Sut i fesur a gwerthuso effeithiolrwydd gofal integredig |
| 14 | Canolbwyntio ar ganlyniadau |
| 55 | Sgwario dulliau o'r brig i lawr gydag agweddau cydgynhyrchu o'r gwaelod i fyny gydag unigolion a chymunedau |

| | |
|---|---|
| **Uchelgais i newid (n=13)** | |
| 9 | Cysoni cyfrifoldebau unigol a systemau |
| 43 | Uchelgais y RIF, a oedd yn gywir |
| 75 | Cyflwyno, datblygu a threialu'r cyfle i ddatblygu perthnasoedd nid dim ond gweithgareddau trafodiadol |
| **Ariannu a rheoli galw (n=16)** | |
| 31 | Nid yw'r cyllid wedi galluogi newid wrth i'r galw wrth y drws ffrynt gynyddu |
| 64 | Cyfyngiadau'r blaenoriaethau a'r pwysau ar gyllidebau gwasanaethau craidd |
| 87 | Cymhlethdod cyflawni yn erbyn holl gydrannau amrywiol y RIF, sy'n gwneud prynu i mewn yn heriol iawn |
| **Cymhlethdod a chyfyngiadau (n=19)** | |
| 18 | Cyfyngus |
| 48 | Y ffaith ei bod yn ymddangos ar adegau fel petai haen ychwanegol o fiwrocratiaeth |
| 86 | Y ffaith bod systemau, prosesau, a chymhlethdod/cystadleuaeth (yn enwedig o dan bwysau ariannol) yn rhwystrau ar adegau |
| **Llywodraethu (n=12)** | |
| 44 | Diffyg monitro neu ganllawiau i weithio o'u mewn – sydd wedi golygu gweithredu anhrefnus iawn |
| 52 | Nid yw'r RIF wedi'i chysylltu'n systematig drwy lywodraethu ac atebolrwydd |
| 77 | Y llywodraethu hanesyddol sy'n ei gwneud yn heriol i bartneriaid newid rhai o'u ffyrdd o weithio i alluogi cydymffurfiaeth lawn |

3.13 Mae gwerthoedd pontio yn dangos pa mor agos mae datganiad yn perthyn i'r eitemau eraill yn ei glwstwr. Mae gwerthoedd pontio yn amrywio rhwng 0 ac 1. Mae gwerthoedd pontio uchel yn awgrymu bod datganiad wedi'i ddidoli gyda syniadau mewn sawl clwstwr arall. Mae gwerthoedd pontio isel yn dangos bod y datganiad wedi'i ddidoli'n fwy cyson o fewn y clwstwr hwnnw; mae'r datganiadau hyn yn cynrychioli'r 'datganiadau angor' mewn clwstwr. Mae Tabl 7 yn dangos nifer y datganiadau fesul clwstwr, gwerth pontio'r clwstwr, a'r ddau ddatganiad sydd â'r gwerthoedd pontio isaf yn y clwstwr (h.y., y datganiadau angor).

3.14 Mae datganiadau angor yn rhoi ffocws defnyddiol i'r clwstwr gan mai dyma'r datganiad(au) a gafodd eu didoli gyda'i gilydd yn fwyaf cyson yn eu clwstwr, sy'n golygu eu bod, yn fwy na'r datganiadau eraill, yn adlewyrchu cynnwys y clwstwr hwnnw h.y., yn 'ffitio' yn agosach yn y clwstwr. Gwelwyd y gwerth pontio cyfartalog isaf yn y clwstwr Cymhlethdod a chyfyngiadau (0.07), ac wedyn yn y clwstwr Integreiddio a Chydweithio (0.09), sy'n awgrymu mai'r clystyrau hyn yw'r rhai mwyaf cydlynol o'r holl glystyrau, a'u bod yn gynrychiolaeth dda o'r data (Tabl 7).

**Tabl 7: Datganiadau angor ar gyfer pob clwstwr, nifer y datganiadau fesul clwstwr a chlystyrau gwerth pontio a datganiadau angor (mae gwerthoedd pontio is yn ffitio'n agosach yn y clwstwr)**

| Clwstwr | Gwerth pontio |
|---|---|
| **Cyfathrebu, perthnasoedd a rhwydweithio** | **0.23** |
| 93. Mynd i'r afael ag anghenion y boblogaeth | 0.151 |
| 72. Gwasanaethau ataliol | 0.166 |
| **Integreiddio a chydweithio** | **0.09** |
| 15. Gofal di-dor | 0.036 |
| 83. Annog ffyrdd newydd o weithio | 0.043 |
| **Effaith, canlyniadau a gwerthuso** | **0.69** |
| 55. Sgwario dull o'r brig i lawr gydag agweddau cydgynhyrchu o'r gwaelod i fyny gydag unigolion a chymunedau | 0.426 |
| 14. Canolbwyntio ar ganlyniadau | 0.454 |
| **Uchelgais i newid** | **0.26** |
| 76. Sut i herio arferion gwaith a thybiaethau diwylliannol cyfredol mewn sefydliadau mewn ffordd gadarnhaol | 0.175 |
| 75. Cyflwyno, datblygu a threialu'r cyfle i ddatblygu perthnasoedd nid dim ond gweithgareddau trafodiadol | 0.2 |
| **Ariannu a rheoli galw** | **0.11** |
| 32. Defnyddio gormod o'r cyllid ar gyfer timau rheoli rhanbarthol ychwanegol nad ydynt mewn cysylltiad â'r rheng flaen | 0.045 |
| 87. Cymhlethdod cyflawni yn erbyn holl gydrannau amrywiol y RIF, sy'n gwneud prynu i mewn yn heriol iawn | 0.048 |
| **Cymhlethdod a chyfyngiadau** | **0.07** |
| 29. Y cyllid i'w groesawu'n fawr, ond mae'r amodau sydd ynghlwm â'r arian yn golygu nad yw (prin) yn werth y drafferth | 0 |
| 16. Wedi'i or-gymhlethu | 0.003 |
| **Llywodraethu** | **0.28** |
| 44. Diffyg monitro neu ganllawiau i weithio o'u mewn – sydd wedi golygu gweithredu anhrefnus iawn | 0.139 |
| 19. Gwerth cyfyngedig | 0.173 |

### Gweithgaredd 3: Sgôr ar gyfer 'Deall' a 'Arwyddocâd'

3.15 Yn y gweithgaredd hwn, gofynnwyd i'r cyfranogwyr sgorio pob un o'r 98 datganiad o ran 'dealltwriaeth' ac 'arwyddocâd'. Mae Tabl 8 yn dangos nifer y datganiadau fesul clwstwr, cyfartaledd y clwstwr ar gyfer dealltwriaeth a chyfartaledd y clwstwr o ran arwyddocâd.

**Tabl 8: Nodweddion clystyrau**

| Model | Cyfathrebu, perthnasoedd a rhwydweithio | Integreiddio a chydweithio | Effaith, canlyniadau a gwerthuso | Uchelgais i newid | Ariannu a rheoli galw | Cymhlethdod a chyfyngiadau | Llywodraethu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y datganiadau | 10 | 18 | 10 | 13 | 16 | 19 | 12 |
| Sgôr dealltwriaeth gyfartalog | 3.2 | 3.26 | 2.94 | 2.87 | 3.18 | 3.12 | 2.87 |
| Sgôr arwyddocâd cyfartalog | 3.91 | 3.83 | 3.83 | 3.59 | 3.93 | 3.74 | 3.61 |

3.16 Mae nodweddion y clystyrau (Tabl 8) a map sgoriau dealltwriaeth y clystyrau (Ffigur 4) yn dangos mai'r clwstwr 'Integreiddio a chydweithio' (3.26) oedd y clwstwr a sgoriwyd fel yr un mwyaf dealledig wrth ystyried yr egwyddorion a'r cysyniadau sylfaenol sy'n gysylltiedig â'r RIF. Y clwstwr 'Cyfathrebu, perthnasoedd, a rhwydweithio' (3.2) oedd yr un mwyaf dealledig ond un. Bernid mai'r clystyrau 'Uchelgais i newid' (2.87) a 'Llywodraethu' (2.87) oedd y rhai lleiaf dealledig.

**Ffigur 4: Map sgorio clystyrau – Dealltwriaeth**



3.17 Mae Tabl 9 yn cyflwyno'r deg datganiad uchaf yn ôl eu sgôr gyfartalog ar gyfer dealltwriaeth.

**Tabl 9: Y deg datganiad gorau a'u sgôr gyfartalog – Dealltwriaeth**

| Rhif | Clwstwr | Datganiad | Sgôr |
|---|---|---|---|
| 64 | Ariannu a rheoli galw | Cyfyngiadau'r blaenoriaethau a'r pwysau ar gyllidebau gwasanaethau craidd | 3.83 |
| 97 | Ariannu a rheoli galw | Y ffaith mai rhan fach iawn o'r System Iechyd a Gofal Cymdeithasol gyfan yw'r RIF | 3.78 |
| 54 | Integreiddio a chydweithio | Egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant – amlasiantaethol ac integreiddio, cydgynhyrchu a llais, atal, llesiant | 3.73 |
| 49 | Cymhlethdod a chyfyngiadau | Mae'n ymddangos ei bod yn cynnal gwasanaethau statudol craidd | 3.65 |
| 95 | Ariannu a rheoli galw | Yr her o symud prosiectau o'r RIF i'w prif ffrydio | 3.61 |
| 33 | Effaith, canlyniadau a gwerthuso | Nid yw'r buddion ataliol i'w gweld yn ystod yr un flwyddyn ariannol | 3.59 |
| 23 | Cymhlethdod a chyfyngiadau | Yn cynnal gwasanaethau craidd | 3.59 |
| 31 | Ariannu a rheoli galw | Nid yw'r cyllid wedi galluogi newid wrth i'r galw wrth y drws ffrynt gynyddu | 3.58 |
| 4 | Cyfathrebu, perthnasoedd a rhwydweithio | Pwysigrwydd cyfathrebu ar draws rhwydweithiau proffesiynol | 3.54 |
| 96 | Cyfathrebu, perthnasoedd a rhwydweithio | Pwysigrwydd lleisiau dinasyddion a gofalwyr wrth ddylunio gweithgareddau a ariennir gan y RIF | 3.52 |

3.18 Mae Tabl 9 yn dangos mai'r datganiad mwyaf dealledig mewn ymateb i'r ysgogiad ffocws 'Pan fydda i'n meddwl am yr egwyddorion a'r cysyniadau sylfaenol rwy'n eu cysylltu â'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, rwy'n meddwl am…', oedd datganiad 64 'Cyfyngiadau'r blaenoriaethau a'r pwysau ar gyllidebau gwasanaethau craidd' (3.83), ac yna datganiad 97, 'Y ffaith mai rhan fach iawn o'r System Iechyd a Gofal Cymdeithasol gyfan yw'r RIF' (3.78). Clwstwr 'Ariannu a rheoli galw' oedd yn cael ei gynrychioli fwyaf, gyda phedwar datganiad yn y deg uchaf.

3.19 Mae nodweddion y clystyrau (Tabl 8) a map sgorio arwyddocâd y clystyrau (Ffigur 5) yn dangos mai'r clwstwr 'Ariannu a rheoli galw' (3.93) oedd y clwstwr a sgoriwyd fel yr un mwyaf arwyddocaol ar gyfartaledd wrth ystyried yr egwyddorion a'r cysyniadau sylfaenol sy'n gysylltiedig â'r RIF. Y clwstwr 'Cyfathrebu, perthnasoedd a rhwydweithio' oedd yr un a sgoriwyd fel y clwstwr mwyaf arwyddocaol ond un (3.91). 'Llywodraethu' (3.6) ac 'Uchelgais i newid' oedd y clystyrau a sgoriwyd fel y rhai lleiaf arwyddocaol ar gyfartaledd.

**Ffigur 5: Map sgorio clystyrau – Arwyddocâd**




3.20 Mae Tabl 10 yn cyflwyno'r deg datganiad uchaf yn ôl sgôr gyfartalog ar gyfer arwyddocâd.

**Tabl 10: Y deg datganiad uchaf a'u sgôr gyfartalog – Arwyddocâd**

| Rhif y datganiad | Clwstwr | Datganiad | Sgôr |
|---|---|---|---|
| 49 | Cymhlethdod a chyfyngiadau | Mae'n ymddangos ei bod yn cynnal gwasanaethau statudol craidd | 4.71 |
| 64 | Ariannu a rheoli galw | Cyfyngiadau'r blaenoriaethau a'r pwysau ar gyllidebau gwasanaethau craidd | 4.54 |
| 95 | Ariannu a rheoli galw | Yr her o symud prosiectau o'r RIF i'w prif ffrydio | 4.48 |
| 96 | Cyfathrebu, perthnasoedd a rhwydweithio | Pwysigrwydd lleisiau dinasyddion a gofalwyr wrth ddylunio gweithgareddau a ariennir gan y RIF | 4.41 |
| 23 | Cymhlethdod a chyfyngiadau | Yn cynnal gwasanaethau craidd | 4.39 |
| 79 | Ariannu a rheoli galw | Pwysau ariannol, sy'n creu heriau i bartneriaid o ran newid rhai o'u ffyrdd o weithio i alluogi cydymffurfiaeth lawn | 4.39 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 54 | Integreiddio a chydweithio | Egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant – amlasiantaethol ac integreiddio, cydgynhyrchu a llais, atal, llesiant | 4.35 |
| 86 | Cymhlethdod a chyfyngiadau | Y ffaith bod systemau, prosesau, a chymhlethdod/cystadleuaeth (yn enwedig o dan bwysau ariannol) yn rhwystrau ar adegau | 4.30 |
| 24 | Ariannu a rheoli galw | Dyblygu a gwrthdaro gyda mentrau eraill Llywodraeth Cymru gan greu cymhlethdod a gwrthdaro | 4.30 |
| 63 | Effaith, canlyniadau a gwerthuso | Mesur canlyniadau | 4.27 |

3.21 Y datganiad mwyaf arwyddocaol mewn ymateb i'r ysgogiad ffocws 'Pan fydda i'n meddwl am yr egwyddorion a'r cysyniadau sylfaenol rwy'n eu cysylltu â'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, rwy'n meddwl am…', oedd datganiad 49 'Mae'n ymddangos ei bod yn cynnal gwasanaethau statudol craidd' (4.71 ), ac yna 'Cyfyngiadau'r blaenoriaethau a'r pwysau ar gyllidebau gwasanaethau craidd' (4.54). Clwstwr 'Ariannu a rheoli galw' oedd yn cael ei gynrychioli fwyaf, gyda phedwar datganiad yn y deg uchaf, ac yna'r clwstwr 'Cymhlethdod a chyfyngiadau' gyda thri datganiad.

Paru Patrymau

3.22 Gellir deall sgoriau'r clystyrau hyn ymhellach gydag adroddiadau Paru Patrymau. Mae Ffigur 6 yn dangos y sgôr gyfartalog fesul clwstwr ar y ddwy raddfa. Gweithgaredd paru patrymau cymharol yw hwn, felly mae'n cyflwyno cyfartaleddau'r clystyrau o fewn yr ystod o raddfeydd ar gyfer pob graddfa, yn hytrach nag ar raddfa sefydlog, absoliwt. Mae paru patrymau cymharol yn galluogi'r ymchwilydd i gymharu nifer o fesuriadau er mwyn sefydlu tuedd (Kamat, 2019).

3.23 Gan fod y graddfeydd sgorio yn mesur gwahanol gysyniadau (h.y., dealltwriaeth ac arwyddocâd), mae'n fwy defnyddiol cymharu safle clystyrau ar y gwahanol raddfeydd, yn hytrach na'r niferoedd absoliwt, nad ydynt o bosibl yn gymaradwy. Mae'r patrwm cyfatebol yn dangos cydberthynas gref rhwng y graddfeydd sgorio dealltwriaeth ac arwyddocâd (r=0.77).

**Ffigur 6: Adroddiad paru patrymau cymharol yn cymharu sgoriau clystyrau ar gyfer dealltwriaeth ac arwyddocâd**




3.24 Mae Ffigur 6 yn dangos tebygrwydd a gwahaniaethau rhwng y clystyrau. Er enghraifft, y clwstwr ‘Cyfathrebu, perthynas a rhwydweithio’ (a gafodd ei sgorio fel y mwyaf dealledig a’r mwyaf arwyddocaol) a’r clystyrau ‘Llywodraethu’ ac ‘Uchelgais i newid’ (y sgoriwyd nhw’u dau fel y rhai lleiaf dealledig). Mae’r gwahaniaethau’n cynnwys y clwstwr ‘Integreiddio a Chydweithio’ (sef y mwyaf dealledig), tra mai’r clwstwr ‘Ariannu a rheoli galw’ oedd y mwyaf arwyddocaol, a’r clwstwr ‘Effaith, canlyniadau a gwerthuso’ (a sgoriwyd yn is o ran dealltwriaeth ac yn uwch o ran arwyddocâd).

3.25 Dywedodd y cyfranogwyr sydd wedi’u lleoli mewn sefydliadau polisi a sefydliadau nad ydynt yn ymwneud â pholisi, mai’r clwstwr ‘Integreiddio a chydweithio’ sydd fwyaf dealledig (3.24 a 3.69 yn y drefn honno). Cafodd y clwstwr ‘Cyfathrebu, perthnasoedd a rhwydweithio’ hefyd sgoriau tebyg ar draws y ddau grŵp (3.20 yn y grŵp nad oedd yn y maes polisi, a 3.50 yn y grŵp polisi). Fodd bynnag, sgoriwyd y clystyrau ‘Ariannu a rheoli galw’ (3.22) a ‘Chymhlethdod a chyfyngiadau’ (3.18) fel rhai mwy dealledig gan sefydliadau nad ydynt yn ymwneud â pholisi o gymharu â’r rhai ym maes polisi, a oedd yn sgorio’r ddau glwstwr fel rhai o’r rhai lleiaf dealledig (2.82 a 2.67). Roedd sgorio hefyd yn wahanol ar gyfer y clystyrau

‘Effaith, canlyniadau, a gwerthuso’ ac ‘Uchelgais i newid’, gyda chyfranogwyr o faes polisi yn sgorio’r rhain fel rhai mwy dealledig (3.20 a 3.13) o gymharu â sefydliadau nad ydynt yn rhai polisi oedd yn eu sgorio fel y rhai lleiaf dealledig yn gyffredinol (2.92 a 2.86).

Go-Zone

3.26 Gan ddefnyddio’r map clystyrau a’r graddfeydd sgorio, creodd y feddalwedd adroddiad Go-Zone (Ffigur 7).

**Ffigur 7: Adroddiad Go-Zone yn dangos sut mae pob datganiad yn cael ei sgorio mewn perthynas â dealltwriaeth ac arwyddocâd**




3.27 Mae'r Go-zone yn cymharu'r holl ddatganiadau ar draws y ddau faen prawf sgorio. Gosodwyd datganiadau ar graff o bedwar cwadrant (mae gan bob cwadrant ei liw ei hun), yn seiliedig ar sgôr gymedrig pob datganiad ar y ddwy raddfa a gafodd eu sgorio gan y cyfranogwyr. Mae cydberthynas gadarnhaol gymedrol (r=0.66) rhwng y ddwy sgôr, sy'n dangos bod cynnydd mewn un sgôr yn gysylltiedig â chynnydd yn y sgôr arall. Mae hyn yn golygu, pe bai datganiad yn cael ei sgorio fel un mwy dealledig, y byddai’n fwy tebygol o gael ei sgorio'n fwy arwyddocaol.

3.28 Mae'r Go-Zone yn dangos pa ddatganiadau oedd uwchlaw neu islaw'r cymedr (cyfartaledd) ar draws y ddau faen prawf sgorio a ddewiswyd, sef 'dealltwriaeth' ac 'arwyddocâd'. Datganiadau uwchben y cymedr arwyddocâd (3.78) oedd fwyaf arwyddocaol ac maent yn y parthau oren a gwyrdd. Y datganiadau sydd uwchlaw'r 'cymedr deall' (3.08) yw'r datganiadau y mae cyfranogwyr wedi'u sgorio fel y rhai mwyaf dealledig ac maent yn y parthau gwyrdd a melyn. Datganiadau yn y parth gwyrdd sydd fwyaf arwyddocaol ac yn fwyaf dealledig, y rhai yn y parth oren sydd fwyaf arwyddocaol, ond sydd leiaf dealledig. Datganiadau yn y parth melyn yw'r rhai lleiaf arwyddocaol ond mwyaf dealledig, a'r rhai yn y parth glas yw'r datganiadau lleiaf arwyddocaol a lleiaf dealledig. Mae datganiadau enghreifftiol o bob cwadrant i'w gweld yn Nhabl 11.

**Tabl 11: Enghraifft a chyfanswm nifer y datganiadau o bob cwadrant**

| Rhif | Geiriad |
|---|---|
| **Cwadrant gwyrdd (n=36) – Lefel uchel o arwyddocâd, Lefel uchel o ddealltwriaeth** | |
| 15 | Gofal di-dor |
| 53 | Y ffaith bod y RIF yn rhan o system ehangach Cymru Iachach |
| 95 | Yr her o symud prosiectau o'r RIF i'w prif ffrydio |
| **Cwadrant oren (n=18) – Lefel uchel o arwyddocâd, Lefel isel o ddealltwriaeth** | |
| 6 | Sut i fesur a gwerthuso effeithiolrwydd gofal integredig |
| 36 | Y ffaith y dylai'r RIF fod yn fodd o gyflawni nod fel rhan o waith newid systemau llawer ehangach |
| 76 | Sut i herio arferion gwaith a thybiaethau diwylliannol cyfredol mewn sefydliadau mewn ffordd gadarnhaol |
| **Cwadrant glas (n=28) – Lefel isel o arwyddocâd, Lefel isel o ddealltwriaeth** | |
| 9 | Cysoni cyfrifoldebau unigol a systemau |
| 46 | Cyfle i atgyfnerthu'r dysgu |
| 62 | Gwerth modelau gofal |
| **Cwadrant melyn (n=16) – Lefel isel o arwyddocâd, Lefel uchel o ddealltwriaeth** | |
| 3 | Pwysigrwydd cydleoli ar gyfer gofal integredig |
| 35 | Un o egwyddorion y RIF oedd galluogi newid diwylliannol integredig |
| 98 | Y ffaith bod cyllid yn cyfrannu at waith partneriaeth integredig |

3.29 Drwy archwilio’r 36 datganiad o’r cwadrant gwyrdd (y mwyaf dealledig ac arwyddocaol), gallwn nodi’r deg datganiad uchaf a’u priod glystyrau (Tabl 12).

**Tabl 12: Y deg datganiad mwyaf arwyddocaol a dealledig o'r egwyddorion a'r cysyniadau sylfaenol sy'n gysylltiedig â'r RIF fesul clwstwr**

| Clwstwr | Datganiad | Dealltwriaeth | Arwyddocâd | Cymedr |
|---|---|---|---|---|
| Ariannu a rheoli galw | Cyfyngiadau'r blaenoriaethau a'r pwysau ar gyllidebau gwasanaethau craidd | 3.81 | 4.54 | 4.18 |
| Cymhlethdod a chyfyngiadau | Mae'n ymddangos ei bod yn cynnal gwasanaethau statudol craidd | 3.65 | 4.71 | 4.18 |
| Ariannu a rheoli galw | Yr her o symud prosiectau o’r RIF i’w prif ffrydio | 3.61 | 4.48 | 4.04 |
| Integreiddio a chydweithio | Egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant – amlasiantaethol ac integreiddio, cydgynhyrchu a llais, atal, llesiant | 3.73 | 4.35 | 4.01 |
| Cymhlethdod a chyfyngiadau | Yn cynnal gwasanaethau craidd | 3.59 | 4.39 | 3.99 |
| Cyfathrebu, perthnasoedd a rhwydweithio | Pwysigrwydd lleisiau dinasyddion a gofalwyr wrth ddylunio gweithgareddau a ariennir gan y RIF | 3.52 | 4.41 | 3.97 |
| Integreiddio a chydweithio | Dulliau cydgysylltiedig o ymdrin ag iechyd a llesiant sy’n cynnwys y trydydd sector | 3.65 | 4.26 | 3.96 |
| Cymhlethdod a chyfyngiadau | Y ffaith bod systemau, prosesau, a chymhlethdod/cystadleuaeth (yn enwedig o dan bwysau ariannol) yn rhwystrau ar adegau | 3.5 | 4.30 | 3.90 |
| Ariannu a rheoli galw | Nid yw'r cyllid wedi galluogi newid wrth i'r galw wrth y drws ffrynt gynyddu | 3.58 | 4.22 | 3.90 |
| Ariannu a rheoli galw | Y ffaith mai rhan fach iawn o’r System Iechyd a Gofal Cymdeithasol gyfan yw’r RIF | 3.78 | 4 | 3.89 |

3.30 Drwy archwilio’r 18 datganiad o’r cwadrant oren (y mwyaf arwyddocaol ond y lleiaf dealledig), gallwn osod y rhain yn nhrefn sgoriau cyfartalog a’u priod glystyrau (Tabl 13).

**Tabl 13: Y deg datganiad mwyaf arwyddocaol ond lleiaf dealledig o'r egwyddorion a'r cysyniadau sylfaenol sy'n gysylltiedig â'r RIF fesul clwstwr**

| Clwstwr | Datganiad | Dealltwriaeth | Arwyddocâd | Cymedr |
|---|---|---|---|---|
| Ariannu a rheoli galw | Dyblygu a gwrthdaro gyda mentrau eraill Llywodraeth Cymru gan greu cymhlethdod a gwrthdaro | 2.96 | 4.30 | 3.63 |
| Cymhlethdod a chyfyngiadau | Prif ffrydio'r cyllid, sy'n parhau i fod yn her gan nad yw'r cymwynaswyr yn y system yn aml yr un fath â'r maes sy'n gwneud y gwaith, h.y. y trydydd sector neu'r sector annibynnol | 3 | 4.21 | 3.61 |
| Uchelgais i newid | Pwysigrwydd cysylltu'r RIF â pholisïau a rhaglenni eraill i fod yn effeithiol | 3 | 4.18 | 3.59 |
| Effaith, canlyniadau a gwerthuso | Mesur canlyniadau | 2.86 | 4.27 | 3.57 |
| Uchelgais i newid | Y ffaith y dylai'r RIF fod yn fodd o gyflawni nod fel rhan o waith newid systemau llawer ehangach | 3 | 4.13 | 3.56 |
| Ariannu a rheoli galw | Y ffaith nad yw'r RIF yn alinio â'r meddylfryd sydd yn y system ar hyn o bryd ar draws yr ystod o bartneriaid | 3 | 3.87 | 3.43 |
| Llywodraethu | Yr amser prin i roi'r gwersi a ddysgwyd o'r gwerthusiad ar waith (RIF yn dod i ben ym mis Mawrth 2027, a'r gwerthusiad yn dod i ben ym mis Rhagfyr 2025) | 3 | 3.86 | 3.43 |
| Cymhlethdod a chyfyngiadau | Biwrocrataidd | 3 | 3.83 | 3.42 |
| Ariannu a rheoli galw | Nid yw'r RIF wedi cael effaith ar ddull gweithredu mewn seilos y gwasanaethau | 2.96 | 3.88 | 3.42 |
| Cyfathrebu, perthnasoedd a rhwydweithio | Pwysigrwydd amlygu agweddau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ym maes gofal integredig | 3 | 3.83 | 3.41 |

3.31 Mae dadansoddiad o'r 28 datganiad yn y cwadrant glas (y lleiaf dealledig a'r lleiaf arwyddocaol), yn nodi'r deg datganiad uchaf a'u priod glystyrau (Tabl 14).

**Tabl 14: Y deg datganiad mwyaf dealledig a lleiaf arwyddocaol o'r egwyddorion a'r cysyniadau sylfaenol sy'n gysylltiedig â'r RIF fesul clwstwr**

| Clwstwr | Datganiad | Dealltwriaeth | Arwyddocâd | Cymedr |
|---|---|---|---|---|
| Uchelgais i newid | Gwerth modelau gofal | 2.42 | 2.87 | 2.64 |
| Llywodraethu | Gwerth cyfyngedig | 2.55 | 2.91 | 2.73 |
| Uchelgais i newid | Cysoni cyfrifoldebau unigol a systemau | 2.5 | 3 | 2.75 |
| Integreiddio a chydweithio | Cysondeb cenedlaethol (yr un cynnig lle bynnag rydyn ni'n byw) | 2.70 | 2.87 | 2.78 |
| Uchelgais i newid | Erydu ffiniau sefydliadol | 2.36 | 3.26 | 2.81 |
| Ariannu a rheoli galw | Defnyddio gormod o'r cyllid ar gyfer timau rheoli rhanbarthol ychwanegol nad ydynt mewn cysylltiad â'r rheng flaen | 2.68 | 2.94 | 2.82 |
| Cymhlethdod a chyfyngiadau | Rheolaethol | 2.52 | 3.14 | 2.81 |
| Effaith, canlyniadau a gwerthuso | Sefydlogrwydd ariannol, sy'n rhyddhad | 2.41 | 3.35 | 2.88 |
| Llywodraethu | Diffyg llywodraethu ac atebolrwydd | 2.61 | 3.18 | 2.90 |
| Effaith, canlyniadau a gwerthuso | Cynaliadwy | 2.36 | 3.59 | 2.98 |

Dadansoddiad sgorio yn ôl sefydliad sy'n cymryd rhan

3.32 Cafodd ymatebion sgorio i'r ddwy raddfa 'Dealltwriaeth' ac 'Arwyddocâd' eu grwpio yn ôl y sefydliad y'u cyflogwyd ynddo; y rhai ym maes polisi (Llywodraeth Cymru), a phob sefydliad arall (nad ydynt ym maes polisi) i'w dadansoddi er mwyn cymharu ymatebion ar draws y ddau grŵp (Ffigur 8 a 9). Mae Ffigur 8 drosodd yn dangos yr adroddiad paru patrymau cymharol – mae defnyddio dull paru patrymau cymharol yn cynnig cymedrau sgorio'r clystyrau o fewn ystod pob graddfa, yn hytrach nag ar

raddfa sefydlog, absoliwt, gan ganiatáu cymhariaeth o nifer o fesuriadau er mwyn sefydlu tuedd (Kamat, 2019; Yu et al, 2022). Mae'r paru patrymau yn dangos tebygrwydd a gwahaniaethau yn y raddfa ddealltwriaeth (r=0.27) ar gyfer y ddau grŵp.

**Ffigur 8: Adroddiad paru patrymau cymharol yn cymharu cyfranogwyr o sectorau polisi a phob sector arall ar gyfer y raddfa sgorio dealltwriaeth**




3.33 Dywedodd y cyfranogwyr sydd wedi'u lleoli mewn sefydliadau polisi a sefydliadau nad ydynt yn ymwneud â pholisi, mai'r clwstwr 'Integreiddio a chydweithio' sydd fwyaf dealledig (3.24 a 3.69 yn y drefn honno). Cafodd y clwstwr 'Cyfathrebu, perthnasoedd a rhwydweithio' hefyd sgoriau tebyg ar draws y ddau grŵp (3.20 yn y grŵp nad oedd yn y maes polisi, a 3.50 yn y grŵp polisi). Fodd bynnag, sgoriwyd y clystyrau 'Ariannu a rheoli galw' (3.22) a 'Chymhlethdod a chyfyngiadau' (3.18) fel rhai mwy dealledig gan sefydliadau nad ydynt yn ymwneud â pholisi o gymharu â'r rhai ym maes polisi, a oedd yn sgorio'r ddau glwstwr fel rhai o'r rhai lleiaf dealledig (2.82 a 2.67). Roedd sgorio hefyd yn wahanol ar gyfer y clystyrau 'Effaith, canlyniadau, a gwerthuso' ac 'Uchelgais i newid', gyda chyfranogwyr o faes polisi yn sgorio'r rhain fel rhai mwy dealledig (3.20 a 3.13) o gymharu â sefydliadau nad

ydynt yn rhai polisi oedd yn eu sgorio fel y rhai lleiaf dealledig yn gyffredinol (2.92 a 2.86).

3.34 Mae Ffigur 9 (drosodd) hefyd yn dangos tebygrwydd a gwahaniaethau yn y sgôr dealltwriaeth (r=0.28) ymhlith sefydliadau polisi a sefydliadau nad ydynt ym maes polisi.

**Ffigur 9: Adroddiad paru patrymau cymharol yn cymharu cyfranogwyr o sectorau polisi a phob sector arall ar gyfer y raddfa sgorio arwyddocâd**




3.35 Nodwyd gwahaniaethau, yn enwedig y clwstwr 'Effaith, canlyniadau, a gwerthuso', a gafodd ei sgorio, ar gyfartaledd, fel y clwstwr lleiaf arwyddocaol fesul polisi (3.43), o gymharu â sefydliadau nad ydynt yn rhai polisi, a sgoriodd y clwstwr hwn fel y mwyaf arwyddocaol ond un (3.90). Ymysg sefydliadau polisi, y clwstwr 'Cyfathrebu, perthynas, a rhwydweithio' oedd fwyaf arwyddocaol (4.07), a'r clwstwr 'Ariannu a rheoli galw' oedd y mwyaf arwyddocaol ymhlith sefydliadau nad ydynt yn rhai polisi (3.93).

3.36 Roedd gwahaniaethau sgoriau'n fwy amlwg gyda'r clwstwr 'Cymhlethdod a chyfyngiadau' (yn fwy arwyddocaol ymhlith cyfranogwyr polisi na chyfranogwyr nad

ydynt o faes polisi (3.89 a 3.71 yn y drefn honno), a'r clwstwr 'Llywodraethu' yn fwy arwyddocaol ymhlith cyfranogwyr polisi (3.75) ac wedi'i sgorio fel y lleiaf arwyddocaol ymhlith cyfranogwyr nad ydynt o faes polisi (3.59). Gellir gweld tebygrwydd gyda'r clwstwr 'Integreiddio a chydweithio' ar gyfer cyfranogwyr polisi (3.85), a chyfranogwyr nad ydynt o faes polisi (3.83).

# 4. Crynodeb

4.1 Archwiliodd yr astudiaeth Mapio Cysyniad Grŵp hon gyda chyfranogwyr yr egwyddorion a'r cysyniadau sylfaenol yr oeddent yn eu cysylltu â'r RIF. Mae data demograffig yn dangos bod cyfranogwyr yn cynrychioli pob rhanbarth ar draws Cymru (gan gynnwys yn genedlaethol), ac ystod o sefydliadau. Roedd gan y rhan fwyaf o gyfranogwyr rolau lefel uwch yn y RIF (n=29). Cymerodd cyfranogwyr a oedd wedi cofrestru ar feddalwedd GroupWisdom™ ran ym mhob un, neu rai o'r tri gweithgaredd, sef taflu syniadau, didoli a sgorio.

4.2 Yn dilyn y gweithgaredd taflu syniadau, didolodd a sgoriodd y cyfranogwyr 98 o gysyniadau a syniadau (datganiadau), a thrwy hynny datblygwyd map saith clwstwr o gysyniadau a syniadau sy'n gysylltiedig â'r RIF:

1. Cyfathrebu, perthnasoedd a rhwydweithio;
2. Integreiddio a chydweithio;
3. Uchelgais i newid;
4. Effaith, canlyniadau a gwerthuso;
5. Ariannu a rheoli galw;
6. Cymhlethdod a chyfyngiadau; a
7. Llywodraethu.

4.3 Mae'r map clystyrau yn dangos y berthynas gysyniadol rhwng clystyrau. Mae cysyniadau uchelgeisiol a strategol lefel uwch o fewn y RIF – 'Cyfathrebu, perthnasoedd a rhwydweithio', 'Integreiddio a chydweithio', ac 'Uchelgais i newid' – wedi'u clystyru'n agosach at ei gilydd. Caiff y rhain eu gwrthbwyso gan ymarferoldeb gweithredol datblygu/rheoli/cyflawni'r RIF a gynrychiolir gan y clystyrau ar 'Cymhlethdod a chyfyngiadau', 'Ariannu a rheoli galw', a 'Llywodraethu', sydd hefyd wedi'u didoli gyda'i gilydd. Mae'r clwstwr terfynol – 'Effaith, canlyniadau a gwerthuso' – yn gweithredu fel pont rhwng y ddau grŵp hyn o glystyrau.

4.4 Ar gyfartaledd, y clwstwr 'Integreiddio a chydweithio' oedd y clwstwr a sgoriwyd fel yr un mwyaf dealledig, a'r clwstwr 'Ariannu a rheoli galw' oedd y clwstwr a sgoriwyd fel yr un mwyaf arwyddocaol ar gyfartaledd.

4.5 Er bod gan rai clystyrau sgoriau cyfartalog tebyg (Uchelgais i newid, Llywodraethu), roedd anghysondebau hefyd e.e., y clwstwr 'Ariannu a rheoli galw' a gafodd ei sgorio fel yr un mwyaf arwyddocaol, ond roedd yn llai dealledig. Yn yr un modd,

sgoriwyd ‘Integreiddio a chydweithio’ fel y clwstwr mwyaf dealledig ond lleiaf arwyddocaol.

4.6 Ar lefel clwstwr, ‘Cyfyngiadau'r blaenoriaethau a'r pwysau ar gyllidebau gwasanaethau craidd’ oedd fwyaf dealledig. Mae’r datganiad hwn yn rhan o’r clwstwr ‘Ariannu a rheoli galw’, a oedd wedi’i gynrychioli fwyaf gyda phedwar o’r deg datganiad uchaf. Y datganiad *‘Mae’n ymddangos ei bod yn cynnal gwasanaethau statudol craidd’* o fewn y clwstwr ‘Cymhlethdod a chyfyngiadau’ oedd fwyaf arwyddocaol. Y clwstwr ‘Ariannu a rheoli galw’ oedd yn cael ei gynrychioli fwyaf, gyda phedwar datganiad yn y deg uchaf, ac yna’r clwstwr ‘Cymhlethdod a chyfyngiadau’ gyda thri datganiad.

4.7 Roedd y go-zone yn dangos y datganiadau uwchlaw neu islaw’r cymedr (cyfartaledd) ar draws y ddwy sgôr ar gyfer ‘dealltwriaeth’ ac ‘arwyddocâd’. Roedd y go-zone yn ein galluogi i adnabod y deg uchaf:

- Y datganiadau mwyaf dealledig a mwyaf arwyddocaol (parth gwyrdd)
- Y datganiadau lleiaf dealledig ond mwyaf arwyddocaol (parth oren)
- Y datganiadau lleiaf dealledig a lleiaf arwyddocaol (parth glas)

4.8 Mae datganiadau yn y cwadrant gwyrdd yn ‘gadarnhaol’ o gymharu â’r lleill o ran pa mor ddealledig ydynt a pha mor arwyddocaol ydynt o ran cyflawni nodau’r RIF. Mae’r gwrthwyneb yn wir am ddatganiadau yn y cwadrant glas – ni theimlir eu bod yn ddealledig iawn nac yn arwyddocaol, ac felly cânt eu sgorio’n llawer mwy negyddol nag eraill. Mae sbectrwm o fewn pob cwadrant, fel y’i cynrychiolir gan y sgoriau ar gyfer y datganiadau yn ‘y deg uchaf (a’r deg isaf)’.

4.9 I grynhoi, gellir cymryd pedair neges allweddol o’r astudiaeth Mapio Cysyniad Grŵp:

- Cafwyd cyfranogiad gan drawstoriad da iawn o randdeiliaid. Roedd y cyfranogwyr yn cynrychioli holl ranbarthau Cymru a safbwyntiau cenedlaethol, ac ystod o wahanol sefydliadau;
- Mae’r map clystyrau’n dangos dau grŵp gwahanol o gysyniadau sy’n dod i’r amlwg – y cysyniadau ‘strategol’ a sgoriwyd yn gymharol gadarnhaol sy’n sail i’r RIF (‘Uchelgais i newid’, ‘Cyfathrebu, perthnasoedd a rhwydweithio’, ac ‘Integreiddio a chydweithio’) wedi’u gwrthbwyso gan y cysyniadau 'gweithredol'

sy'n sail i'r RIF ('Cymhlethdod a chyfyngiadau', 'Ariannu a rheoli galw', a 'Llywodraethu') a sgoriwyd yn gymharol negyddol;

- Mae'r graddfeydd sgorio a ddangosir yn y gwaith paru patrymau yn dangos, er bod gan rai clystyrau sgoriau cyfartalog tebyg ar y ddwy raddfa (dealltwriaeth ac arwyddocâd), bod anghysondebau hefyd rhwng y ddwy sgôr ar gyfer rhai cysyniadau. Mae hyn yn fwyaf amlwg ar gyfer ‘Ariannu a rheoli galw’ sy’n cael ei sgorio fel y clwstwr mwyaf arwyddocaol o ran cyflawni nodau’r RIF ond fel un llai dealledig. Yn yr un modd, ‘Integreiddio a chydweithio’ yw’r cysyniad mwyaf dealledig, ond fe’i hystyrir yn llai arwyddocaol o ran cyflawni’r canlyniadau o dan y RIF;
- Yn y dadansoddiad go-zone, ceir cyfres o ddatganiadau sydd wedi’u sgorio yn y cwadrant gwyrdd (h.y. sgôr uwch na’r cyfartaledd gan gyfranogwyr ar gyfer arwyddocâd a dealltwriaeth o fewn y RIF) gan gynnwys rhai ar bwysau ariannol, y RIF yn cael ei defnyddio i gynnal gwasanaethau, a phwysau ar y system. Mae datganiadau yn y parth llwyd (h.y. rhai y mae cyfranogwyr wedi’u sgorio fel y rhai lleiaf arwyddocaol o ran cyflawni nodau’r RIF a’r rhai lleiaf dealledig) yn cynnwys cysyniadau a syniadau sy’n greiddiol i’r RIF ei hun fel y modelau gofal, erydiad ffiniau sefydliadol, ac ymreolaeth mewn systemau gofal integredig.

**Cyfyngiadau**

4.10 Ein nod oedd recriwtio hyd at 100 o gyfranogwyr oedd yn gyfrifol am ddatblygu / rheoli / gweithredu / cyflawni prosiectau neu raglenni a ariennir gan y RIF ledled Cymru. Y rhai mewn rolau uwch a gweithredol oedd wedi’u cynrychioli fwyaf (n=29), gyda dim ond un cyfranogwr yn nodi mai goruchwyliwr neu ymarferydd oeddynt. Serch hynny, roedd y cyfranogwyr yn cynrychioli pob rhanbarth yng Nghymru, a phob sefydliad. At hynny, mae'r astudiaeth hon yn un o nifer o rai eraill sy'n cyfrannu at Gam Cysyniadu blwyddyn un y gwerthusiad cenedlaethol o'r RIF. Wrth i’r gwerthusiad symud i’r ail flwyddyn, ‘Gweithredu’, byddwn yn ceisio cynnwys holl randdeiliaid proffesiynol y RIF (gan gynnwys y gweithlu) a sicrhau ein bod yn clywed ganddynt.

## Cyfeirnodau

Bryer, N. a Bebb, H. (2024) Gwerthusiad Cenedlaethol o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol: Cam Cysyniadu – canfyddiadau o'r cyfweliadau cwmpasu manwl gyda rhanddeiliaid allweddol. Dogfen Tystiolaeth Ategol 4.

Elliott, M., Smith, S.R., Pontin, D., a Wallace, S. (2022). Conceptualising social wellbeing using an international Group Concept Mapping study. International Journal of Wellbeing, 12(3), 1-15.

Kamat PV (2019) Absolute, arbitrary, relative, or normalized scale? How to get the scale right. ACS Energy Lett, 4: 8.

Kane, M. a Rosas, S., (2017). Conversations about group concept mapping: Applications, examples, and enhancements. Thousand Oaks, CA: Sage Publications.

Kane, M. a Trochim, W.M. (2007*). Concept mapping for planning and evaluation*. Thousand Oaks, CA: Sage Publications.

Llewellyn, M. a Verity, F. (2024) O theori i ymarfer: cysyniadu'r egwyddorion arweiniol o fewn y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Caerdydd. Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif xx/2024.

Tetlow, S., Wallace, C., Wallace, S., Llewellyn, M., a Verity F. (2024) Gwerthusiad Cenedlaethol o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol: Adolygiad Llenyddiaeth Realistig Cyflym. Dogfen Tystiolaeth Ategol 2.

Verity, F a Llewellyn, M (2023) Fframwaith ar gyfer Newid: Cyfarwyddiadau, egwyddorion ac amcanion arweiniol y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Dogfen Tystiolaeth Ategol 1.

Yu, J., Wallace, S., a Kenkre, J. (2022). Archwiliad o'r nifer sy'n manteisio ar raglenni sgrinio am ganser yng Ngorllewin Casnewydd. Yu, J., Wallace, S., a Kenkre, J. (2022). Archwiliad o'r nifer sy'n manteisio ar raglenni sgrinio am ganser yng Ngorllewin Casnewydd

# Atodiad A

**Rhestr lawn o'r datganiadau (n=98)**

| Nifer | Datganiad |
|---|---|
| 1 | Pwysigrwydd amlygu agweddau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ym maes gofal integredig |
| 2 | Pwysigrwydd rhyngweithiadau wyneb yn wyneb gyda chleifion ac yn broffesiynol |
| 3 | Pwysigrwydd cydleoli ar gyfer gofal integredig |
| 4 | Pwysigrwydd cyfathrebu ar draws rhwydweithiau proffesiynol |
| 5 | Erydu ffiniau sefydliadol |
| 6 | Sut i fesur a gwerthuso effeithiolrwydd gofal integredig |
| 7 | Un weledigaeth gyffredin ar gyfer gofal integredig ar draws holl gydrannau'r system |
| 8 | Pwysigrwydd rhwydweithiau proffesiynol ffurfiol ac anffurfiol |
| 9 | Cysoni cyfrifoldebau unigol a systemau |
| 10 | Cydweithio rhwng elfennau gwahanol o'r sector iechyd e.e. gofal sylfaenol ac eilaidd |
| 11 | Pwysigrwydd sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer gofal integredig |
| 12 | Pwysigrwydd ymreolaeth mewn systemau gofal integredig |
| 13 | Cynaliadwy |
| 14 | Canolbwyntio ar ganlyniadau |
| 15 | Gofal di-dor |
| 16 | Wedi'i or-gymhlethu |
| 17 | Rheolaethol |
| 18 | Cyfyngus |
| 19 | Gwerth cyfyngedig |
| 20 | Yn cymryd llawer o amser |
| 21 | Beichus |
| 22 | Biwrocrataidd |
| 23 | Yn cynnal gwasanaethau craidd |
| 24 | Dyblygu a gwrthdaro gyda mentrau eraill Llywodraeth Cymru gan greu cymhlethdod a gwrthdaro |
| 25 | Dylai tapro weithio ond mae'r amseru'n anghywir |
| 26 | Mae'r modelau gofal newydd yn sylfaenol ddiffygiol. Nid modelau gofal ydyn nhw, ond cydrannau unigol o arfer da mewn model gofal |
| 27 | Diffyg cydnabyddiaeth bod gan wahanol garfanau anghenion gwahanol ac atebion gwahanol |

| | |
|---|---|
| 28 | Cyfle sydd wedi'i golli |
| 29 | Y cyllid i'w groesawu'n fawr, ond mae'r amodau sydd ynghlwm â'r arian yn golygu nad yw (prin) yn werth y drafferth |
| 30 | Mae'r RIF wedi dod yn ateb i bob problem/i bob angen am ariannu |
| 31 | Nid yw'r cyllid wedi galluogi newid wrth i'r galw wrth y drws ffrynt gynyddu |
| 32 | Defnyddio gormod o'r cyllid ar gyfer timau rheoli rhanbarthol ychwanegol nad ydynt mewn cysylltiad â'r rheng flaen |
| 33 | Nid yw'r buddion ataliol i'w gweld yn ystod yr un flwyddyn ariannol |
| 34 | Prif ffrydio'r cyllid, sy'n parhau i fod yn her gan nad yw'r cymwynaswyr yn y system yn aml yr un fath â'r maes sy'n gwneud y gwaith, h.y. y trydydd sector neu'r sector annibynnol |
| 35 | Un o egwyddorion y RIF oedd galluogi newid diwylliannol integredig |
| 36 | Y ffaith y dylai'r RIF fod yn fodd o gyflawni nod fel rhan o waith newid systemau llawer ehangach |
| 37 | Y ffaith bod cyllid yn gallu dargyfeirio sylw yn ogystal â bod yn ysgogiad |
| 38 | Gormod o bwyslais ar brosiectau |
| 39 | Diffyg prif ffrydio |
| 40 | Y ffaith bod y RIF yn anghyson ag egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol – ddim yn hirdymor |
| 41 | Diffyg cefnogaeth o gwmpas y system i gyflawni'r trawsnewid a fwriedir |
| 42 | Camdybiaethau ynghylch cyflawni |
| 43 | Uchelgais y RIF, a oedd yn gywir |
| 44 | Diffyg monitro neu ganllawiau i weithio o'u mewn – sydd wedi golygu gweithredu anhrefnus iawn |
| 45 | Cyfle i wneud mwy yn wahanol |
| 46 | Cyfle i atgyfnerthu'r dysgu |
| 47 | Nid yw'r RIF wedi cael effaith ar ddull gweithredu mewn seilos y gwasanaethau |
| 48 | Y ffaith ei bod yn ymddangos ar adegau fel petai haen ychwanegol o fiwrocratiaeth |
| 49 | Mae'n ymddangos ei bod yn cynnal gwasanaethau statudol craidd |
| 50 | Potensial enfawr |
| 51 | Diffyg llywodraethu ac atebolrwydd |
| 52 | Nid yw'r RIF wedi'i chysylltu'n systematig drwy lywodraethu ac atebolrwydd |
| 53 | Y ffaith bod y RIF yn rhan o system ehangach Cymru Iachach |
| 54 | Egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant – amlasiantaethol ac integreiddio, cydgynhyrchu a llais, atal, llesiant |

| | |
|---|---|
| 55 | Sgwario dull o'r brig i lawr gydag agweddau cydgynhyrchu o'r gwaelod i fyny gydag unigolion a chymunedau |
| 56 | Cysondeb cenedlaethol (yr un cynnig lle bynnag rydyn ni'n byw) |
| 57 | Yr amser prin i roi'r gwersi a ddysgwyd o'r gwerthusiad ar waith (RIF yn dod i ben ym mis Mawrth 2027, a'r gwerthusiad yn dod i ben ym mis Rhagfyr 2025) |
| 58 | Mae cyllid mewn gormod o seilos |
| 59 | Mae polisi mewn gormod o seilos |
| 60 | Pwysigrwydd cysylltu'r RIF â pholisïau a rhaglenni eraill er mwyn bod yn effeithiol |
| 61 | Nodau trawsnewid |
| 62 | Gwerth modelau gofal |
| 63 | Mesur canlyniadau |
| 64 | Cyfyngiadau'r blaenoriaethau a'r pwysau ar gyllidebau gwasanaethau craidd |
| 65 | Cefnogi peth arloesi |
| 66 | Mae bwriadau da'r RIF yn afrealistig i'w cyflawni'n gyflym ac ar raddfa fawr |
| 67 | Yr amser sydd ei angen i ymdrin â chymhlethdod ariannol y RIF |
| 68 | Cymhlethdod y ffrydiau ariannu (gwahanol ffrydiau ariannu i gyd yn cael eu rheoli o dan un ymbarél) |
| 69 | Sefydlogrwydd ariannol, sy'n rhyddhad |
| 70 | Ymdrechion i rannu'r gronfa'n themâu gwahanol – gyda manteision ac anfanteision i hynny |
| 71 | Cydweithio gydag integreiddio llawn (pan fo hynny'n bosibl) |
| 72 | Gwasanaethau ataliol |
| 73 | Cyfle i brofi modelau newydd |
| 74 | Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig |
| 75 | Cyflwyno, datblygu a threialu'r cyfle i ddatblygu perthnasoedd nid dim ond gweithgareddau trafodiadol |
| 76 | Sut i herio arferion gwaith a thybiaethau diwylliannol cyfredol mewn sefydliadau mewn ffordd gadarnhaol |
| 77 | Y llywodraethu hanesyddol sy'n ei gwneud yn heriol i bartneriaid newid rhai o'u ffyrdd o weithio i alluogi cydymffurfiaeth lawn |
| 78 | Modus operandi sy'n ei gwneud yn heriol i bartneriaid newid rhai o'u ffyrdd o weithio er mwyn galluogi cydymffurfiaeth lawn |
| 79 | Pwysau ariannol, sy'n creu heriau i bartneriaid o ran newid rhai o'u ffyrdd o weithio i alluogi cydymffurfiaeth lawn |
| 80 | Atal – e.e. sefydlu cynlluniau hirdymor i leihau / ail-gyfeirio'r galw |
| 81 | Gweithio gyda'n gilydd i sicrhau canlyniadau gwell i'r boblogaeth – rydyn ni'n well gyda'n gilydd |

| | |
|---|---|
| 82 | Cydweithio ar draws partneriaid i fynd i'r afael â chur pen i'r ddwy ochr |
| 83 | Annog ffyrdd newydd o weithio |
| 84 | Dysgu gan ein gilydd er mwyn sicrhau canlyniadau gwell ar gyfer y boblogaeth – rydyn ni’n well gyda'n gilydd |
| 85 | Cefnogi cydweithio |
| 86 | Y ffaith bod systemau, prosesau, a chymhlethdod/cystadleuaeth (yn enwedig o dan bwysau ariannol) yn rhwystrau ar adegau |
| 87 | Cymhlethdod cyflawni yn erbyn holl gydrannau amrywiol y RIF, sy'n gwneud prynu i mewn yn heriol iawn |
| 88 | Offeryn i gefnogi gwasanaethau iechyd a gofal cydgysylltiedig gwell |
| 89 | Y ffaith nad yw’r RIF yn alinio â’r meddylfryd sydd yn y system ar hyn o bryd ar draws yr ystod o bartneriaid |
| 90 | Y ffaith bod y RIF mor gymhleth |
| 91 | Dulliau partneriaeth |
| 92 | Cydgynhyrchu |
| 93 | Mynd i'r afael ag anghenion y boblogaeth |
| 94 | Dulliau cydgysylltiedig o ymdrin ag iechyd a llesiant sy’n cynnwys y trydydd sector |
| 95 | Yr her o symud prosiectau o’r RIF i’w prif ffrydio |
| 96 | Pwysigrwydd lleisiau dinasyddion a gofalwyr wrth ddylunio gweithgareddau a ariennir gan y RIF |
| 97 | Y ffaith mai rhan fach iawn o’r System Iechyd a Gofal Cymdeithasol gyfan yw’r RIF |
| 98 | Y ffaith bod cyllid yn cyfrannu at waith partneriaeth integredig |